Cadwyn Bro

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Parch Ddr. Andras Iago
Ffon – 07778511672
E-bost – andrasiago@ebcpcw.cymru

Mawrth 2020 **Rhif 101**

Gaf i ddechrau trwy ddymuno Dydd Gŵyl Dewi dedwydd i chi. A gobeithio wir bydd Dydd Gŵyl Dewi yn ddechrau ar fis sychach a brafiach na'r mis Chwefror a aeth heibio!

Mae Dydd Gŵyl Dewi'n gyfle da i wneud sawl peth. Mae'n gyfle i gymharu 'recipes' cawl sydd wedi eu perffeithio dros y cenedlaethau, neu'n gyfle i dynnu'r maen allan o gefn y cwpwrdd a choginio pentyrrau o bice. Dwi dal ddim yn hollol siŵr beth yw'r gair Dyffryn Clwyd am bice – atebion ar gerdyn post os gwelwch yn dda.

Wrth gwrs, mae Dydd Gŵyl Dewi yn gyfle i wneud rhywbeth arall. Fel mae enwau pentrefi'r ardal yn ein hatgoffa ni, mae Cristnogaeth wedi siapio'n gwlad ni mewn cymaint o ffyrdd. Yn y pethau sy'n amlwg i'r llygad – enwau lleoedd, adeiladau; ac yn y pethau llai amlwg, o'r ffordd ydyn ni'n siarad, i'r ffordd rydyn ni'n meddwl hyd yn oed. Ac mae hanes Cymru yn llawn o bobl sy'n enwog am eu ffydd yn Nuw, ac yn enwog am yr hyn a wnaeth Duw ynddyn nhw a thrwyddyn nhw.

Ar ddydd Gŵyl Dewi mae'n werth i ni gofio eto nad Duw'r gorffennol ydi'n Duw ni. Mae'r un mor rymus a charedig heddiw ac oedd yng nghyfnod y Seintiau neu'r Diwygiadau, neu ar unrhyw gyfnod arall yn hanes ein gwlad ni. Mae'n gwlad ni dal angen clywed am yr Iesu byw, sy'n rhoi ystyr i fywyd a gobaith i bawb sy'n trystio ynddo, ac sy'n newid pobl a chymunedau er gwell trwy ei ras a'i gariad. Mae geiriau enwog Dewi'n parhau i herio ni heddiw: 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chadwch eich ffydd a'ch cred. A gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi'. Mae geiriau Dewi yn ein hatgoffa ni o eiriau Iesu ei hun – yr alwad i'w ddilyn o yn y cwbl rydyn ni'n ei wneud, a'i garu â'n holl enaid a'n holl nerth. Mae'n addo bod gyda ni a bod yn oleuni mewn tywyllwch, yn obaith mewn tristwch, ac yn ffordd lle nad yw'r ffordd yn glir i ni.

Tydi hi ddim rhy hwyr i archebu llyfr o ddarlleniadau dyddiol ar gyfer cyfnod y Grawys – byddwn yn dilyn rhain yn ein Astudiaeth Feiblaidd ac yn trafod yr hyn wnaethom ni ddysgu o'r Beibl, ond mae croeso i chi ddilyn y llyfr os na allwch ddod ar ddydd Mercher. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Andras.

DIGWYDDIADUR

Cinio'r Fro

Cynhelir cinio'r Fro y mis yma ar ddydd Gwener, Mawrth 13eg, am 12.00 yn Festri y Capel Mawr. Aelodau Capel Trefnant sydd yn gofalu am siaradwr wedi'r cinio y tro yma. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

Cymorth Cristnogol

Cinio cynnil yn Eglwys y Santes Fair i godi arian i Gymorth Cristnogol. 11 – 1 bob dydd Gwener yn ystod cyfnod y Grawys (28ain Chwefror, 6, 13, 20, 27 o Fawrth, a'r 3ydd o Ebrill). Croeso cynnes i bawb!

Astudiaeth Feiblaidd

Cynhelir Astudiaeth Feiblaidd y Fro yn Nhrefnant ar yr 11eg a'r 25ain o Fawrth, a hynny am 1.30 y.p.

Gweddi dros Ginio

Cynhelir gweddi dros ginio yn festri y Capel Mawr ar yr 11eg o Fawrth, 12.30-1.30 y.p. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno am ginio ysgafn a chyfle i weddio gyda'n gilydd.

Cwrs y Beibl

Byddwn yn parhau i gynnal Cwrs y Beibl yn Capel y Pentre am 7.30 ar yr 12fed o Fawrth. Croeso cynnes i unrhywun ymuno â ni.

Clwb Ieuenctid

Byddwn yn cynnal Clwb Ieuenctid ar nos Wener y 6ed a'r 20fed o Fawrth am 7 y.h. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Andras.

Gwasanaeth Mawl

Ar yr 22ain o Fawrth byddwn ni'n cynnal gwasanaeth anffurfiol o fawl. Croeso cynnes i bawb o bob oed i ymuno â ni yn festri Capel Mawr am 4.30 y.p. Bydd paned a chacen yn dilyn.

BODFARI

Dydd Sul, Mawrth 8fed
10.00 – Parch Bernard Thomas,Trefnant
Dydd Llun, Mawrth 9fed
Cinio Cynnil yn y Festri o 12.00 – 1.00
Croeso cynnes i bawb
Dydd Sul, Mawrth 15fed
9.45 - Bugail

Pleser i'w cael llongyfarch a dymuno'n dda i Glenys Jones sydd yn dathlu pen blwydd arbennig iawn.

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Mawrth 1af
Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yng Nghapel y Fron am 11.00
Dydd Sul, Mawrth 8ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch.Dafydd Rees Roberts am 2.00
Dydd Sul, Mawrth 15ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Trefor Lewis am 2.00
Nos Lun, Mawrth 16eg
Dathlu Gŵyl Ddewi yn y Capel Mawr am 7.00
Gŵr gwadd - Y Prifardd Myrddin ap Dafydd.
Dydd Sul, Mawrth 22ain
Oedfa Gymun - Parch. Andras Iago am 11.00
Dydd Sul, Mawrth 29ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Bernard Thomas am 2.00

CAPEL DYFFRYN

Dydd Sul, Mawrth 1af am 9.45yb
Gwasanaeth Gŵyl Ddewi gyda'r plant
Organ - Alaw
Blodau - Alaw

Nos Wener, Mawrth 6ed am 6 yh
Gwasanaeth Dydd Gweddi Merched y Byd
yn Eglwys Llandyrnog

Nos Lun, Mawrth 2ail am 6.30yh
Y Gymdeithas - Swper Gwyl Ddewi
Adloniant gan Tonig.

Dydd Sul, Mawrth 8fed am 11yb
Parch Andras Iago - Gwasanaeth Cymun
Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30yb
Emyn a Darllen Oedolion - Myfanwy
Organ - Iona
Blodau - Veronica

Dydd Sul, 15ed am 9.45yb
Parch Aneurin Owen
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15yb
Emyn a Darllen Oedolion - Veronica
Emyn Plant - Osian
Darllen Plant - Cadi
Organ - Anwen
Blodau - Mair

Dydd Sul, 22ain am 11yb
Parch Gwenda Richards
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30yb
Emyn a Darllen Oedolion - Gwyneth
Organ - Lona Meleri
Blodau - Mary

Dydd Sul, 29ain am 9.45yb
Parch Andras Iago
Gwasanaeth Teulu yn y Festri
Emyn a Darllen Oedolion - Margaret L
Emyn Plant - Nest
Darllen Plant - Beth
Organ - Alaw
Blodau - Gwen

GELLIFOR

Dydd Sul, Mawrth 1
11.00 – Gwasanaeth Gŵyl Dewi
Gwasanaeth Dechreuol – Hafodty
Offeryn – Richard
Pawb i ddod a Cennin Pedr

Dydd Sul, Mawrth 1
12.00 – Cinio Gŵyl Dewi
Pawb i gyfrannu bwyd a raffl

Dydd Sul, Mawrth 8
9.45 – Gweinidog
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Elaine
Offeryn – Alaw
Blodau - Edwina

Dydd Sul, Mawrth 15
11.00 – Parch Aneurin Owen
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Hafod y Coed
Offeryn - Nia
Blodau – Idris

Dydd Sul, Mawrth 22
9.45 - Parch Gwenda Richards
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Bryn Bedw
Offeryn – Margaret
Blodau – Alaw

Dydd Sul, Mawrth 29
11.00 – Gweinidog - Cymun
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Plas yn Rhos
Offeryn – Alaw
Blodau – Alaw

Y FRON

Llywydd y Mis – Mrs Wendy Lloyd Jones

Dydd Sul Mawrth 1af
11.00 - Fron – Oedfa undebol Gŵyl Ddewi i holl Eglwysi'r dre, dan arweiniad ein Gweinidog
Dydd Sul Mawrth 8ed
10.00 - Capel Mawr – Parch Dafydd Rees Roberts, Llandudno
5.30 - Fron – Miss Debbie Roberts, Rhyd y Foel
Dydd Sul Mawrth 15ed
10.00 - Fron – Cyfarfod Gweddi
5.30 - Capel Mawr – Parch Trefor Lewis,Hen Golwyn
Dydd Sul Marth 22ain
11.00 - Brwcws – Oedfa Gymun dan ofal y Gweinidog
Dydd Sul Mawrth 29ain
10.00 - Fron – Y Parch Bernard Thomas, Trefnant
5.30 - Capel Mawr – Y Parch Bernard Thomas,Trefnant

Organyddion – Iona Edwards a Eiri Jones

Casglyddion – Aelwyn Lloyd a John Geraint Jones
Croesawu – 1af - Mr Richard Snelson
8ed - Mr Aelwyn Lloyd
15ed - Mr John Howatson
29ain - Mrs Gaynor Prew

Blodau – Yn gyfrifiol – Mrs Carys Jones
1af - Carys Jones
8ed - Nancy Brierley
15ed - June Howatson
29ain - Eleri Jones

A wnaiff y chwiorydd sydd â Blychau Cenhadol neu unrhyw un fuasai yn hoffi cyfrannu tuag at waith y Genhadaeth ofalu bod Carys Jones yn ei derbyn erbyn Dydd Sul, Mawrth 15ed. Diolch.

Cynhelir Cyfarfod Dydd Gweddi'r Byd yn ysgoldy Capel Pendref Dydd Gwener Mawrth 6ed am 2 o'r gloch.Y mae y gwasanaeth wedi ei drefnu gan chwiorydd Zimbabwe, a'r testun yw "Côd cymer dy Fatras a Cherdda".

Nos Lun Mawrth 16eg cynhelir Swper Gŵyl Dewi yn festri'r Capel Mawr am 7yh. Noson yng nghwmni yr Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd. Testun ei sgwrs fydd "Ymlaen o 'Steddfod 2019". Croeso i aelodau y Fron a'r Brwcws.

Y CAPEL MAWR A SEION

Dydd Sul, Mawrth 1
**11am – Y Fron – Gwasanaeth Gŵyl Ddewi eglwysi'r dref dan arweiniad y Bugail
** Dim oedfa hwyrol

Dydd Gwener, Mawrth 6
2pm -Cyfarfod Gweddi Byd Eang Y Chwiorydd ym Mhendref

Dydd Sul, Mawrth 8
10am – Y Capel Mawr – Y Parch. Dafydd Rees Roberts, Llandudno
5.30pm – Y Fron – Miss Debbie Roberts, Rhydyfoel

Dydd Llun, Mawrth 9
1.30pm - Cyfarfod Gweddi Cenhadol

Dydd Sul, Mawrth 15
10am – Y Fron – Cyfarfod Gweddi
5.30pm – Y Capel Mawr – Y Parch. Trefor Lewis, Hen Golwyn

Dydd Llun, Mawrth 16
7pm – Y Capel Mawr – Dathlu Gŵyl Ddewi gyda swper Gŵr gwadd - Myrddin ap Dafydd, Archdderwydd Cymru, gyda sgwrs ar y testun "Ymlaen o Eisteddfod 2019". Croeso cynnes i bawb!

Dydd Sul, Mawrth 22
**11am – Y Brwcws – Y Bugail. Gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon.

Dydd Sul, Mawrth 29
10am – Y Fron – Y Parch. Bernard Thomas
5.30pm – Y Capel Mawr – Y Parch. Bernard Thomas

Llywydd Y Mis: – Mr Gwilym Luke Jones

Organydd/Cyfeilydd:-
Mawrth 8 – Mrs Dorothy Rogers
Mawrth 15 - Mrs Catrin Warren
Mawrth 29 – Mrs Dorothy Rogers

Casglyddion:- Gwirfoddolwyr o'r gynulleidfa

Blodau
Mawrth 8 – Mrs Alwenna Luke Jones

Llety'r Pregethwyr:-
Mawrth 8 - 34 Ffordd Colomendy

→

RHOI BLODAU AR Y SUL

Os hoffech chi roi blodau ar gyfer unrhyw Suliau yn ystod Ebrill a Mai, cysylltwch â Mr Stan Lyall, os gwelwch yn dda. Y rhif ffôn ydyw 01745 813659

SWPER GŴYL DDEWI

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda swper yn y Festri am 7 o'r gloch ar nos Lun, Mawrth 16eg. Y gŵr gwadd fydd Myrddin ap Dafydd, Archdderwydd Cymru, a fydd yn traddodi sgwrs ar y testun "Ymlaen o Eisteddfod 2019". Croeso cynnes i bawb i'r achlysur hwn.

LLANRHAEADR PRION A'R GLYN

Dyddf Sul, Mawrth 1af
9.45 Pentre - Gwasanaeth Byd Eang
Dydd Sul, Mawrth 8fed
9.45 Prion – Parch. John Owen
Dydd Sul, Mawrth 15eg
11.00 Pentre - Gweinidog - Gwasanaeth Cymun
Dydd Sul, Mawrth 22ain
9.45 Prion - Mr Celfyn Williams
Dydd Sul,Mawrth 29ain
9.45 Pentre - Gwasanaeth Gŵyl Dewi

COLLI AELOD - Yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd, drwg iawn gennym glywed y newyddion trist am Eifion Rowlands, Llwyn Bach gynt. Fe symudodd i Ddinbych dair blynedd yn ôl, roedd bob tro môr groesawgar pan yn ei ymweld ac wrth ei fodd yn clywed ein hanes yma yn y Pentre. Roedd yn ddiddorol ei sgwrs ac yn hel atgofion lu am yr amser a fu, ac yn ymfalchio wrth ddweud hanes ei wyrion au wyresau. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr gyda'i blant yn Ninbych a Rhyd y Foel, a'i wyrion a wyresau, hefyd gyda Annette ei chwaer yng nghyfraith, ei nai Ian, Llinos a'r teulu, Tŷ Coch, a Gwenan, Tŷ Du, ei gyfnither, ein cofion atoch i gyd yn eich colled.

NOSON GYMDEITHAS GŴYL DEWI - Cynhelir noson gymdeithas Gŵyl Dewi NOS FAWRTH 25ain o Chwefror am 6.30yh yn y Festri. Bydd swper wedi ei drefnu, ac adloniant ysgafn i ddilyn o dan ofal Plant a Phobl Ifanc Ysgol Sul Capel Y Pentre. £5 oedolion, ac am ddim i blant. Croeso cynnes i bawb.

Y GLYN

Dydd Sul, Mawrth 8fed – 2.00
Cynhelir oedfa gyda'r Parch Andras Iago yn gwasanaethu
Dydd Sul, Mawrth 29ain – 2.00
Cynhelir oedfa gyda'r Parch Andras Iago yn gwasanaethu

TREFNANT

Llywydd y Mis : BET ROBERTS

Dydd Sul Mawrth 1af
3.00. : Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Dilys Hughes

Dydd Gwener Mawrth 6ed.
2.00 pm. Gwasanaeth dwyieithog Dydd Gweddi
Byd-eang gydag Eglwysi'r Ardal

Dydd Sul Mawrth 8fed
10.00. : Mr Meurig Edwards 11.00. YSO
3.00. : Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau. : Dilys Hughes

Dydd Sul Mawrth 15ed
10.00. : Mr Glyn Williams. 11.00. YSO
3.00. : Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau. : Laura Owen

Dydd Sul Mawrth 22ain.
9.45 : Y Gweinidog. 11.00. YSO
3.00. : Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Laura Owen

Dydd Sul Mawrth 29ain.
10.00. : Y Parch Hugh Pritchard gyda phaned i ddilyn
3.00. : Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau. : Helen Evans

YSGOL SUL Y PLANT – cynhelir hwn yn y Festri wedi rhan agoriadol y gwasanaeth boreol dan arweiniad Angharad ac Anwen.

DOSBARTH GWEITHGAREDDAU – mae'r dosbarth prynhawn Llun yn brysur unwaith eto a nifer dda yn dod i fwynhau cwmnïaeth a phaned mewn awyrgylch addolgar, gymdeithasol. Croeso i eraill ymuno gyda'r cwmni.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL - Bydd cyfarfod y mis hwn ar Nos Wener, Mawrth 27ain pan fydd Mr Bob Morris yn cyflwyno darlith ar agwedd o hanes lleol. Eifion Williams fydd llywydd y noson ac wrth gwrs, mae croeso cynnes i bawb.

PARTI CANU – Mae parti canu newydd wedi'i ffurfio dan arweiniad Arwyn Roberts yn cyfarfod yn Festri Capel Trefnant. Mae'r cyfarfod nesaf ar Nos Fercher, Chwefror 26ain am 7.30 pm. Croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLAD - Estynnwn ein cydymdeimlad â Tudor Evans, Parc Elwy, y merched Sara a Ffion, Mrs Mary Evans a Selwyn Evans a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth o golli Rhiannon yn ddiweddar. Cofiwn amdanoch oll yn ein gweddïau.

Newyddion rhifyn Ebrill o'r Cadwyn Bro
erbyn dydd Gwener Mawrth 17
e-bost: meinididdos13@gmail.com
neu 01745 890417